# Adroddiad Rheoleiddio Blynyddol 2023

## Cynnwys


Cyflwyniad....2
Ymateb i ddigwyddiadau....2
Trwyddedau ac esemptiadau....4
Cydymffurfedd a pherfformiad gweithredwyr....6
Gorfodaeth a sancsiynau....11
Cod ar gyfer Gwasanaeth Erlyn y Goron....17
Trwyddedu ein gweithgareddau ein hunain....19
Rhagolwg....20
Erlyniadau....22

# Cyflwyniad

Nid yw'r disgwyliadau i warchod yr amgylchedd naturiol erioed wedi bod yn uwch.

Fel rheoleiddiwr amgylcheddol Cymru, mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn wynebu craffu cynyddol ar sut yr ydym yn gorfodi’r rheolau sy’n lleihau’r risgiau o lygredd sy’n niweidio iechyd dynol a natur ac yn cyfrannu at allyriadau nwyon tŷ gwydr.

Mae ein cylch gwaith yn eang, gan oruchwylio’r gwaith o reoleiddio busnesau a diwydiannau ar draws ystod eang o sectorau, o gwmnïau dŵr i safleoedd rheoli gwastraff. Rydym hefyd ar flaen y gad o ran ymateb i’r nifer cynyddol o ddigwyddiadau a lywir gan yr argyfyngau hinsawdd a natur.

Mae'r argyfyngau cydgysylltiedig hyn yn effeithio'n ddifrifol ar natur a chymunedau. Mewn ymateb, rydym yn dal y rhai rydym yn eu rheoleiddio i'r un safonau uchel ag a osodir arnom ni. Ni all rheoleiddio effeithiol ymwneud â dileu pob risg, ond yn hytrach mae'n ymwneud â'u rheoli a'u lleihau, fel bod y risg o niwed a achosir gan lygredd yn cael ei hatal neu ei lleihau cymaint â phosibl.

Rydym yn ymdrechu i gyflawni hyn drwy sicrhau bod busnesau yn bodloni gofynion cyfreithiol, rhoi trwyddedau a monitro cydymffurfedd â'r amodau hyn, a defnyddio amrywiaeth o offer gorfodi ar gyfer gweithgareddau anghyfreithlon neu nad ydynt yn cydymffurfio i atal neu leihau llygredd. Rydym hefyd yn darparu addysg, cyngor ac arweiniad i annog busnesau i fynd y tu hwnt i gydymffurfio er budd yr amgylchedd a llesiant y cyhoedd yng Nghymru.

Pan fydd digwyddiadau amgylcheddol yn digwydd, rydym yn gweithio’n ddiflino i ymateb – gan atal y difrod, nodi'r achos, a sicrhau bod yr effeithiau'n cael eu glanhau. Os oes unrhyw doriadau a bod difrod difrifol neu fwriadol yn cael ei wneud, byddwn yn cymryd camau gorfodi cymesur i sicrhau bod y llygrwr yn talu.

Fel rhan o'n hymrwymiad i dryloywder, rydym yn cyhoeddi Adroddiad Rheoleiddio Blynyddol, sy'n cynnig trosolwg cynhwysfawr o'n gweithgareddau rheoleiddio a gorfodi. Mae ein hadroddiad yn 2023, ein seithfed, yn crynhoi ein hymateb i ddigwyddiadau, ein gwaith trwyddedu a chydymffurfio, ein camau mewn ymateb i drosedd, a’n camau gorfodi a chosbi, gan adlewyrchu ein dyletswyddau rheoleiddio statudol.Mae hyn yn seiliedig ar ddata o’n systemau digwyddiadau, trwyddedu, cydymffurfio a gorfodi allweddol yn ystod blwyddyn galendr 2023. Yn cefnogi’r adroddiad hwn mae cyfres o ffeithluniau ychwanegol fesul cyfundrefn reoleiddio: Gwastraff a Diwydiant; Tir, Bioamrywiaeth a Physgodfeydd; Ansawdd Dŵr ac Adnoddau Dŵr; a Llifogydd, Cronfeydd Dŵr a’r Môr

# Ymateb i ddigwyddiadau

Rydym yn ymateb i ddigwyddiadau ac argyfyngau 24 awr y dydd, saith niwrnod yr wythnos, 365 diwrnod y flwyddyn.  Mae’r digwyddiadau rydym yn delio â nhw yn amrywio o lifogydd, llygredd aer, llygredd tir a dŵr, pysgodfeydd, troseddau bywyd gwyllt a difrod tir i ddigwyddiadau eraill lle rydym yn gweithredu fel cynghorwyr i’r gwasanaethau brys.

Rydym yn ymatebwr categori un o dan delerau'r Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl. Golyga hyn fod gennym gyfrifoldeb cyfreithiol i sicrhau bod trefniadau rheoli digwyddiadau cadarn yn eu lle i ymateb i ddigwyddiadau ac argyfyngau.

Yn 2023, gwelsom gynnydd o 17% mewn adrodd am ddigwyddiadau o lefelau 2022. Cofnodwyd 8,940 o adroddiadau digwyddiadau gennym, a thybiwyd nad oedd 435 yn ein cylch gwaith neu cawsant eu trosglwyddo i sefydliadau partner. Roedd hyn yn golygu cyfanswm terfynol o 8,505 o adroddiadau digwyddiadau yn 2023, i fyny o 7,255 yn 2022.

Rydym yn asesu'r digwyddiadau hyn fel naill ai:

- *Digwyddiad Effaith Lefel Uchel*: digwyddiad y mae ei effaith yn gofyn am ymateb ar unwaith ar sail 24 awr, i liniaru effaith y digwyddiad. Mae gan y math hwn o ddigwyddiad naill ai effaith andwyol sylweddol neu effaith neu ddifrod andwyol difrifol, parhaus a/neu helaeth ar yr amgylchedd, pobl neu eiddo, neu i asedau, gweithrediad neu enw da CNC.

- *Digwyddiad Effaith Lefel Isel*: digwyddiad nad yw ei effaith yn gofyn am ymateb ar unwaith a gellir ymateb iddo o fewn oriau swyddfa arferol, neu, os caiff ei dderbyn y tu allan i oriau swyddfa, gellir gohirio'r ymateb i oriau swyddfa arferol a delio ag ef fel gwaith gweithredol arferol. Nid yw'r math hwn o ddigwyddiad yn cael unrhyw effaith amgylcheddol na sefydliadol, neu mae'n cael effaith neu ddifrod andwyol bach neu fach iawn ar yr amgylchedd, pobl neu eiddo, neu ar asedau, gweithrediad neu enw da CNC.

Y prif feini prawf cyffredinol a ystyrir wrth asesu unrhyw ddigwyddiad yw:

- Risg i iechyd y cyhoedd, gan gynnwys effeithiau ar ansawdd aer, arogl, sŵn, ymbelydredd, a'r effaith ar amwynderau
- Risg yn ymwneud ag un o'n hasedau neu'r tir neu gyrff dŵr rydym yn eu rheoli
- Effaith ddifrifol ar adnoddau naturiol Cymru (gan gynnwys effeithiau ar aer, tir, dŵr, pysgodfeydd a bioamrywiaeth) a'r effaith ar gadwraeth a'r economi
- Llifogydd gwirioneddol neu bosibl o eiddo neu seilwaith
- Ein rhan mewn ymateb amlasiantaeth i ddigwyddiad
- Diddordeb y cyfryngau a/neu'r risg i'n henw da

Mae pob digwyddiad a gawn yn cael ei asesu yn erbyn y meini prawf uchod. Fel y mae'r tabl isod yn ei ddangos, cafodd 1,290 o ddigwyddiadau a adroddwyd i ni eu categoreiddio fel 'lefel uchel', gyda 7,215 o ddigwyddiadau yn y categori 'lefel isel'. Yn 2023, fe wnaethom fynychu 2,448 (29%) o'r holl ddigwyddiadau. Er i ni dderbyn 17% yn fwy o ddigwyddiadau yn 2023 o gymharu â 2022, arhosodd canran ein presenoldeb yr un fath â 2022.
Fodd bynnag, nid yw'r ffaith na wnaethom fynychu yn golygu nad ymatebwyd i'r digwyddiadau. Ymdrinnir â nifer o bell naill ai drwy e-bost neu dros y ffôn, ac ar ôl asesiad ystyrir bod rhai digwyddiadau yn llai o flaenoriaeth i ni neilltuo adnoddau iddynt. Felly, ni fydd angen presenoldeb ar gyfer pob digwyddiad, uchel neu isel.

# Digwyddiadau a gofnodwyd

| Categori | Cyfanswm y digwyddiadau | % | Lefel uchel - nifer | Lefel uchel - mynychwyd | Lefel isel - nifer | Lefel isel - mynychwd |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Pysgodfeydd** | 347 | 4% | 93 | 33 | 254 | 49 |
| **Llifogydd** | 229 | 3% | 60 | 18 | 169 | 15 |
| **Coedwigaeth** | 524 | 6% | 24 | 11 | 500 | 220 |
| **Arall** | 1,036 | 12% | 195 | 72 | 841 | 195 |
| **Gwastraff** | 3,051 | 36% | 294 | 46 | 2,757 | 566 |
| **Dŵr** | 3,318 | 39% | 624 | 332 | 2,694 | 891 |
| **Cyfanswm** | **8,505** | **100%** | **1,290** | **512** | **7,215** | **1,936** |

Ar hyn o bryd, rydym yn bwriadu addasu ein prosesau rheoli digwyddiadau ac ymateb i ddigwyddiadau i gefnogi ein hymrwymiad i gyflawni ein cynllun corfforaethol o dan Amcan Llesiant 3: Mae llygredd yn cael ei leihau, trwy ddatblygu ymagwedd sy'n seiliedig ar risg at ddigwyddiadau trwy wneud y canlynol:

- Lleihau difrod o ddigwyddiadau llygredd amgylcheddol
- Lleihau difrod o fewn sectorau ac ardaloedd daearyddol penodol
- Lleihau difrod o droseddau amgylcheddol difrifol
- Lleihau difrod o wastraff anghyfreithlon

# Trwyddedau ac esemptiadau

Mae trwyddedau yn rhan hanfodol o'r broses o reoleiddio effeithiol, er mwyn darparu safon ofynnol fel sylfaen i atal niwed amgylcheddol.

Rydym yn gyfrifol am benderfynu ar geisiadau a rhoi ystod eang o drwyddedau. Mae hyn yn cynnwys asesu a rhoi trwyddedau ag amodau i ddiogelu'r amgylchedd, a gweithio gyda phobl a busnesau ledled Cymru i fonitro sut mae safonau deddfwriaethol yn cael eu bodloni.Pan gydymffurfir â'u hamodau, mae trwyddedau priodol yn galluogi deiliaid trwyddedau i gyflawni eu gweithrediadau'n ddiogel heb niweidio'r amgylchedd, ac yn cynnal chwarae teg i fusnesau cyfreithlon drwy atal gweithredwyr anghyfrifol neu anghyfreithlon rhag gweithredu'n rhatach.

Mae gwybodaeth am sut rydym yn rheoli ceisiadau am drwyddedau a pha mor hir y mae'n ei gymryd i ni eu prosesu ar gael ar ein gwefan. Cyhoeddir ein penderfyniadau trwyddedu amgylcheddol yn fisol. Mae'r tabl isod yn dangos nifer y trwyddedau a roddwyd gan CNC yn 2023. Mae hyn yn cynnwys mathau o geisiadau, megis cyflwyno cais am drwydded newydd, adnewyddu trwydded, gwneud newidiadau i drwydded gyfredol, trosglwyddo trwydded i rywun arall, neu ildio  trwydded nad oes ei hangen bellach.

| Cyfundrefn trwyddedu | Cyfanswm yn 2023 |
|---|---|
| Perygl llifogydd | 218 |
| Coedwigaeth | 490 |

| | |
|---|---|
| Gosodiadau | 232 |
| Ffermio dwys | 127 |
| Morol | 173 |
| Sylweddau ymbelydrol / niwclear | 112 |
| Rhywogaethau | 1,892 |
| Gwastraff | 741 |
| Adnoddau dŵr | 104 |
| Ansawdd dŵr | 283 |

Yn ogystal â'n rôl drwyddedu, mae gennym hefyd gyfrifoldeb yng Nghymru am ddynodi safleoedd gwarchodedig – ardaloedd yr ydym wedi pennu eu bod o bwysigrwydd cenedlaethol neu ryngwladol ar gyfer cadwraeth natur (cynefinoedd neu rywogaethau) neu nodweddion daearegol, ar y tir neu mewn dyfroedd croyw neu forol.Yn 2023, rhoesom 519 o gydsyniadau i berchnogion neu feddianwyr, a 441 o gydsyniadau i ymgymerwyr statudol, ar gyfer Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) o dan *Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981*. Fe wnaethom hefyd hysbysu dau safle newydd ac ailhysbysu un safle presennol:

- SoDdGA Bodwigiad a Nant y Deri – safle newydd 81.99 hectar (hysbyswyd 14 Medi 2023)
- SoDdGA Gwel y Coed – safle newydd 5.96 hectar (hysbyswyd 3 Mai 2023)
- SoDdGA Coedwig Dyfi – estyniad (cynnydd o 383.35 hectar) i SoDdGA presennol (ailhysbyswyd 11 Rhagfyr 2023)

Gyda'i gilydd, mae'r hysbysiadau hyn yn ein helpu i warchod cynefinoedd glaswelltir, rhostir a choetir, a rhywogaethau planhigion, cennau a bryoffytau.

Ar ddiwedd 2023, roedd 15,308 o gofrestriadau gan gludwyr, broceriaid a delwyr gwastraff ar ein cofrestr gyhoeddus. Mae nifer y cofrestriadau wedi cynyddu 20% o 12,767 yn 2022. Yn ogystal, ar ddiwedd 2023 roedd 45,549 o esemptiadau gwastraff wedi'u cofrestru gyda ni mewn 13,568 o leoliadau gwahanol. Mae hyn yn gynnydd o 31% o'r 34,841 o esemptiadau a gofrestrwyd gyda ni yn 2022.

Ym mis Gorffennaf 2023, fe wnaethom gyflwyno taliadau newydd ar gyfer ceisiadau am drwyddedau newydd a diwygiedig ar gyfer y canlynol:

- trwyddedau ar gyfer rhywogaethau
- rheoleiddio diwydiant
- gwastraff ar safle
- ansawdd dŵr
- adnoddau dwr
- cydymffurfedd cronfeydd dŵr

Ceir rhagor o wybodaeth am daliadau ar ein gwefan.

# Cydymffurfedd a pherfformiad gweithredwyr

Mae gwiriadau cydymffurfio yn hanfodol i sicrhau y cydymffurfir â thrwyddedau. Rydym yn asesu cydymffurfedd ag amodau trwydded trwy archwiliadau ffisegol, ond rydym hefyd yn casglu gwybodaeth o bell, yn dadansoddi adroddiadau, gweithdrefnau, cynlluniau a data gweithredwyr, ac yn cynnal ein gwaith monitro a samplu ein hunain er mwyn asesu perfformiad. O'u defnyddio gyda'i gilydd, mae'r gweithgareddau hyn yn rhoi darlun cyfoethog i ni y gallwn ei ddefnyddio i asesu cydymffurfedd rheoleiddiol a diogelu'r amgylchedd, ein cymunedau, a diwydiant cyfreithlon.

Mae’r camau hyn hefyd yn hanfodol yn ein gwaith i ymgysylltu ag endidau a reoleiddir, i addysgu a galluogi cydymffurfedd, i gynnig gwybodaeth a chyngor, ac i osgoi biwrocratiaeth neu gostau diangen. Rydym yn annog blaenoriaethu arferion amgylcheddol cadarnhaol mewn gweithrediadau dyddiol, gan weithio gydag unigolion a busnesau i roi'r amgylchedd yn gyntaf ac i integreiddio arferion amgylcheddol da o fewn dulliau gweithio arferol.

Mae’r tabl isod yn amlygu ein hasesiadau cydymffurfio ar draws sawl cylch gwaith deddfwriaethol yn 2023. Mae hyn yn cael ei gymharu â’n gwaith cydymffurfio yn 2022. Dyma'r flwyddyn gyntaf i ni gynnwys gwybodaeth yn ymwneud â thrwyddedau gweithgarwch perygl llifogydd, felly nid yw'n bosibl cymharu.

| Cyfundrefn | 2022 | 2023 |
|---|---|---|
| **Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol** | | |
| *Gweithrediadau gwastraff* | 414 | 377 |
| *Gosodiadau* | 679 | 650 |
| *Ffermio dwys* | 62 | 92 |
| **Coedwigaeth** | | |
| *Hysbysiadau iechyd planhigion statudol* | 255 | 216 |
| *Archwiliadau trwydded* | 118 | 165 |
| *Archwiliadau rhybudd* | 8 | 15 |
| **Dŵr** | | |
| *Adnoddau* | 113 | 99 |
| *Gollyngiadau* | 474 | 649 |
| **Llifogydd** | | |
| *Trwyddedau gweithgarwch perygl llifogydd risg uchel* | Amh. | 144 |

Yn dilyn asesiad cydymffurfio, rydym yn cofnodi ein canfyddiadau mewn Adroddiad Asesu Cydymffurfedd, gan nodi unrhyw achosion o dorri amod trwydded a nodi camau gweithredu i unioni a/neu leihau’r risg y bydd yn digwydd eto. Gellir dod o hyd i gofrestr gyhoeddus y Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol yma. Yn 2023, fe wnaethom gofnodi:

- Asesiadau ar 192 o safleoedd gosodiadau gwahanol yn 2023, sef 83% o’r holl safleoedd. Arweiniodd yr asesiadau hyn at nodi 616 o achosion o ddiffyg cydymffurfio

a gofnodwyd yn erbyn trwyddedau gosodiadau, gyda 95% yn cael effaith fach neu ddim effaith amgylcheddol o gwbl.

- 92 o ffurflenni Adroddiad Asesu Cydymffurfedd ar 68 o safleoedd ffermio dwys. Mae hon yn gyfradd asesu o 74% o'r holl safleoedd. Arweiniodd yr asesiadau hyn at nodi 75 o achosion o ddiffyg cydymffurfio yn erbyn trwyddedau ffermio dwys. Ystyriwyd bod pob un o'r rhain yn cael effaith fach neu ddim effaith amgylcheddol o gwbl.

- 99 o ffurflenni Adroddiad Asesu Cydymffurfedd yn ymwneud ag asesiad o amodau trwyddedau adnoddau dŵr, gyda 55.5% (55) yn methu â chydymffurfio. Mae’r ffigurau hyn yn debyg iawn i 2022. Drwy'r asesiadau hyn, cofnodwyd 80 o doriadau yn erbyn amodau trwydded, gyda 97% o'r toriadau hyn yn cael effaith fach neu ddim effaith amgylcheddol.

- 649 o asesiadau cydymffurfio o amodau trwyddedau gollwng dŵr, gan ganfod bod 52% (338) yn peidio â chydymffurfio. Trwy'r 338 o asesiadau hyn, fe wnaethom gofnodi 439 o doriadau, gan gategoreiddio'r rhain fel Categori 1-4, yn seiliedig ar eu heffaith amgylcheddol bosibl. Tybiwyd bod 15 o'r rhain yn achosion o ddiffyg cydymffurfio Categori 1, a allai gael effaith amgylcheddol fawr, ac ystyriwyd bod 56 yn Gategori 2, a allai gael effaith amgylcheddol arwyddocaol. Barnwyd bod yr 84% arall yn cael effaith amgylcheddol fach neu ddim effaith o gwbl.

- Gwiriadau cydymffurfio ar 144 o drwyddedau gweithgarwch perygl llifogydd a ddosberthir fel ‘risg uchel’. Cydymffurfiodd tua 81 o weithredwyr ag amodau eu trwyddedau, gyda 55 o weithredwyr yn cadarnhau bod gwaith naill ai’n cael ei wneud ar hyn o bryd neu, oherwydd y cyfnod gwahardd mewn pysgodfeydd a oedd yn ei le ar y pryd (canol mis Hydref i ganol mis Ebrill), nad oeddent wedi dechrau ar eu gwaith eto. Barnwyd nad oedd wyth gweithredwr yn cydymffurfio.

- Ar 31 Mawrth 2024, fe wnaethom gofnodi achosion o ddiffyg cydymffurfio heb eu datrys mewn 41 o gronfeydd dŵr, sef 89.9% o gydymffurfedd cyffredinol. Nid yw diffyg cydymffurfio o reidrwydd yn cyfateb i ddirywiad mewn diogelwch adeileddol argaeau, ond mae'n adlewyrchu'r dull cyffredinol o reoli a gweithredu gan yr ymgymerwr.

- 2,008 o wiriadau trwydded gwialen. Roedd y rhain yn cynnwys 1,476 o drwyddedau cwrs a brithyllod, 489 o drwyddedau eogiaid a 43 o drwyddedau iau. Roedd cyfradd osgoi talu o bedwar y cant. Yn ogystal, cynhaliodd ein swyddogion gorfodi 24 o wiriadau rhwyd, yn cynnwys 12 gwiriad rhwyd cwrwgl a 12 o wiriadau rhwyd sân.

- Cofnodwyd 377 o achosion o ddiffyg cydymffurfio ag amodau trwydded yn erbyn trwyddedau gweithrediadau gwastraff yn 2023, o gymharu â 308 yn 2022. Roedd ychydig dros ddwy ran o dair o'r achosion o ddiffyg cydymffurfio yn fach. Dim ond un achos difrifol o ddiffyg cydymffurfio a gofnodwyd.

- Mae safleoedd Band D, E ac F yn perfformio'n wael a dyma'r safleoedd gwastraff â blaenoriaeth ar gyfer ein hymdrech reoleiddiol. Roedd 24 o berfformwyr gwael yn 2023. Mae hyn yn cyfrif am 4% o safleoedd gwastraff gweithredol. Manylir ar y safleoedd hyn isod.

| Trwydded | Enw’r safle | Band |
|---|---|---|
| KP3594VE | Trade Effluent Services Limited | F |

| | | |
|---|---|---|
| RP3098FM | Ammanford Metal Recycling | F |
| UP3794FZ | Worldcare Wales Ltd | F |
| WP3395FT | Twyn Dismantlers Ltd | F |
| AB3092FR | Llantrisant Recycling | E |
| AB3296HT | Install Waste Management Limited | E |
| BB3793ND | AMG Resources Ltd | E |
| EB3893HR | Cox Skip and Waste Management | E |
| HB3490HK | Abertawe Metals Recycling Ltd | E |
| JB3531AB | Cyfleuster Ailgylchu Enviroventure Waste Solutions | E |
| MB3333DG | Jonathan Mark Rees | E |
| AB3095ZY | Associated British Ports | D |
| AB3998CJ | Worldcare Recycling | D |
| BB3298HN | Green Steel Works Ltd | D |
| BB3299FN | SL Recycling Ltd | D |
| BB3394CL | Morris & Co (Handlers) Ltd | D |
| CB3495FF | South West Wood Products Limited, Doc y Brenin | D |
| CB3797CA | New Horizon Biofuel and Animal Bedding Co Ltd | D |
| FB3390HM | Griffiths Waste Solutions | D |
| GP3193MV | Cyfleuster Datgymalu ac Ailgylchu Cerbydau M&R Commercials | D |
| KP3095FE | Gwilym Eirwyn Williams | D |
| XB3393HM | Project Red Recycling | D |
| ZB3593HH | SL Recycling Ltd | D |
| ZP3899FX | Merthyr Borough Recycling Centre Ltd | D |

Yn 2023, dechreuodd CNC rôl gydymffurfio newydd o dan *Reoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021* (CoAPR). Cyflwynwyd rheoliadau gan Lywodraeth Cymru i leihau colledion llygryddion o amaethyddiaeth i'r amgylchedd drwy osod rheoliadau ar gyfer rhai arferion ffermio.

Mae gweithredu'r rheoliadau wedi'i gyflwyno fesul cam dros gyfnod o bedair blynedd a daw'r set derfynol o fesurau, sy'n ymwneud â chyfnodau caeedig ar gyfer taenu, gyda therfynau dilynol ar gyfer llwytho nitrogen a gofynion storio cysylltiedig, i rym ddiwedd 2024. Mae gan CNC gytundeb lefel gwasanaeth wedi'i ariannu gyda Llywodraeth Cymru i gynnal rhaglen flaenoriaethol o arolygiadau cydymffurfio o weithgareddau amaethyddol risg uwch ledled Cymru, a bwriedir cynnal 800 o arolygiadau yn ystod 2024. Mae gennym ddau dîm o swyddogion hyfforddedig sydd wedi'u neilltuo i gynnal y rhaglen hon o arolygiadau.

Caiff ein hymweliadau eu cofnodi yn ôl blwyddyn ariannol. Ddiwedd mis Mawrth 2024, canfuom fod 133 (63%) yn peidio â chydymffurfio ag un neu fwy o'r rheoliadau a 77 (37%) yn cydymffurfio'n llawn â'r rheoliadau sydd mewn grym ar hyn o bryd. Ar ddiwedd mis Mawrth 2024, daeth 15 o ffermydd (11% o ffermydd nad oeddent yn cydymffurfio) yn ôl i gydymffurfio'n llawn ac mae 18 arall (16%) yn adrodd am gynnydd gweithredol tuag at gydymffurfedd llawn. Rydym yn parhau i weithio'n adeiladol gyda'r holl ffermydd a arolygwyd er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio o fewn amserlenni y cytunwyd arnynt.

Yn ogystal â'n gwaith monitro a sicrhau cydymffurfedd ein hunain, rydym yn parhau i gydweithio â chynrychiolwyr y sector a thrwy'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus i wneud y gorau o gyfleoedd, ac adeiladu partneriaethau ystyrlon i ysgogi'r newid trawsnewidiol sydd ei angen arnom.

Yn ein rôl yn rheoleiddio sylweddau ymbelydrol niwclear a di-niwclear, rydym yn gweithio gyda grwpiau defnyddwyr, gan gynnwys y sectorau meddygol a diwydiannol, ac ar y cyd â rheoleiddwyr eraill y DU ar brosiectau ledled y DU. Oherwydd hyn, gwnaethom gwblhau'r asesiad o chwe adroddiad diogelwch haen uwch, cymryd rhan gyda'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch mewn 14 arolygiad o safleoedd haen uwch a haen is, ac ymchwilio i dri digwyddiad arwyddocaol ar safleoedd Rheoli Peryglon Damweiniau Mawr, yr ymchwiliwyd iddynt gennym ar y cyd â'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch.

Yn 2023, mae ein gwaith cydweithredol rhwng rheoleiddwyr, cymunedau lleol a sectorau a reoleiddir, yn ogystal â phrosiectau a ariennir fel ein prosiect Taclo Troseddau Gwastraff, wedi bod yn allweddol i atal troseddau amgylcheddol rhag digwydd yn y lle cyntaf.

Yn ogystal, mae ein rôl rheoleiddio'r gyfundrefn ar gyfer cludwyr, broceriaid a delwyr gwastraff wedi ein galluogi i weithio gyda sefydliadau partner, gan gynnwys awdurdodau lleol, yr heddlu, a'r Asiantaeth Safonau Gyrwyr a Cherbydau, i asesu gweithredwyr gwastraff a chludwyr cofrestredig, i sicrhau bod gwastraff yn cael ei drin yn gywir.Gall gweithgarwch gwastraff anghyfreithlon a thipio anghyfreithlon achosi llygredd, effeithio ar iechyd pobl a'n cymunedau, a thanseilio busnesau cyfreithlon.

Mae ein gwaith dyletswydd gofal wedi gweld CNC yn asesu dros 2,000 o sefydliadau a chludwyr gwastraff ar ran eraill yn ystod blwyddyn galendr 2023. Mae hyn yn cynnig un esboniad am gynnydd o 20% yn nifer y cofrestriadau cludwyr gwastraff a wnaed i CNC yn 2023 o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

Yn ogystal, mae hunanfonitro gan weithredwyr wedi bod yn rhan o'n gwaith i reoleiddio diwydiant, gan gynnwys cwmnïau dŵr, ers 2010. Mae'r dull hwn wedi ceisio sicrhau bod cwmnïau'n cymryd mwy o gyfrifoldeb am eu perfformiad eu hunain drwy gasglu a dadansoddi samplau o ollyngiadau a ganiateir, sicrhau achrediad ar gyfer dadansoddi, ac adrodd a rhoi gwybod i ni am achosion o dorri amodau trwydded. Cyflwynwyd y dull hwn i helpu i leihau'r baich rheoleiddio ar fusnes a gwneud defnydd effeithiol o lai o adnoddau rheoleiddio, wrth gryfhau a gwella cydymffurfedd yn gyffredinol.

Mae tua 60% o drwyddedau gollwng dŵr yn cael eu dal gan ddau gwmni dŵr, sef Dŵr Cymru Welsh Water a Hafren Dyfrdwy. Ers 2010, mae'r cwmnïau dŵr yn cynnal hunanfonitro gan weithredwyr. Rydym hefyd yn cynnal asesiad cydymffurfio blynyddol ar berfformiad amgylcheddol y cwmnïau dŵr, gan gynhyrchu adroddiadau allanol a darparu ffurflenni data i Ofwat a ddefnyddiwyd ganddynt i fonitro eu perfformiad.

- Gweld ein hadroddiadau perfformiad amgylcheddol blynyddol ar gyfer Dŵr Cymru Welsh Water
- Gweld ein hadroddiadau perfformiad amgylcheddol blynyddol ar gyfer Hafren Dyfrdwy

Ers 2022, rydym hefyd wedi cynhyrchu adroddiad data blynyddol ar gyfer arllwysiadau gan orlifoedd storm. Rhestrir y rhain yn adran Adroddiadau Dŵr ein gwefan.

Yn ogystal, aeth y gwasanaeth datganiadau ar-lein newydd ar gyfer adnoddau dŵr yn fyw ym mis Mawrth 2023. Mae'r system ar-lein newydd hon yn caniatáu i ddeiliaid trwyddedau tynnu dŵr ac asiantau / cysylltiadau datganiadau fewnbynnu a chyflwyno eu ffurflenni tynnu

dŵr (gwybodaeth am faint o ddŵr y maent wedi'i dynnu) drwy ddefnyddio cyfrifiadur, llechen neu ffôn clyfar drwy gydol y flwyddyn. Cyflwynir y rhain yn uniongyrchol i ni ar ddiwedd cyfnod y datganiad. Gall deiliaid trwyddedau ac asiantau hefyd weld, lawrlwytho ac argraffu unrhyw wybodaeth sydd wedi'i chofnodi'n flaenorol ar y gwasanaeth hwn. Mae CNC wedi gofyn am ddata datganiadau yn ôl i 2019 ac rydym yn annog deiliaid trwyddedau tynnu dŵr i gofrestru ar y system i fewnbynnu eu data datganiadau ac i gadw gwybodaeth gyswllt yn gyfredol a rhoi gwybod i ni am unrhyw newidiadau. Byddwn yn darparu diweddariadau ar y gwaith hwn mewn adroddiadau yn y dyfodol.

# Astudiaeth achos 1 – Rheoli Peryglon Damweiniau Mawr (COMAH)

Roedd gan Fillcare ym Mhont-y-clun ymyriad diogelwch proses ar ei gyfleuster storio ethanol swmp yn 2022. Cynhyrchodd yr ymyriad hwn nifer sylweddol o gamau gweithredu a chyhoeddwyd hysbysiad gwella i fynd i'r afael â diffyg cydymffurfio cyfreithiol, i ddefnyddio'r holl fesurau angenrheidiol i atal a chyfyngu ar ganlyniadau damwain fawr (Rheoliad COMAH 5(1)).

Cadarnhaodd ymyriadau dilynol yn 2023 fod nifer o welliannau i seilwaith cyfyngu sylfaenol ac eilaidd a'i reolaeth wedi'u rhoi ar waith. Fodd bynnag, erys gwelliannau pellach y mae angen eu cwblhau erbyn diwedd 2024.

# Astudiaeth achos 2 – menter Taclo Troseddau Gwastraff ar gyfer gwastraff adeiladu

Nododd gwaith y tîm Taclo Troseddau Gwastraff yng nghanolbarth Cymru y gallai CNC weithio'n agosach ag awdurdodau lleol a rhoi negeseuon clir a chyson i ddatblygwyr am reolaeth briodol eu gwastraff adeiladu.

Er mwyn helpu i ddatblygu'r dull partneriaeth hwn, rhoddwyd cyflwyniadau i chwe awdurdod lleol gyda'r nod o godi ymwybyddiaeth o waith swyddogion Taclo Troseddau Gwastraff CNC, gan ganolbwyntio'n benodol ar y materion sy'n ymwneud â gwastraff adeiladu a dymchwel, a'i waredu'n amhriodol.

Yn dilyn ymlaen o'r ymgysylltu hwn, darparodd CNC ganllawiau i bob awdurdod lleol yng Nghymru eu defnyddio yn eu gohebiaeth â datblygwyr, gyda'r nod o roi gwybod iddynt am y defnydd cywir o esemptiadau gwastraff ac arferion gorau ar gyfer gwaredu gwastraff. Mae awdurdodau lleol yn ceisio cynnwys yr wybodaeth hon ochr yn ochr â chymeradwyaethau caniatâd cynllunio.

Sefydlodd yr ymgysylltu ag awdurdodau lleol gysylltiadau gwaith agosach. Mae hyn eisoes wedi arwain at adroddiadau i CNC am gontractwyr a thirfeddianwyr yn camddefnyddio esemptiadau U1, gan arwain at ddifrod amgylcheddol. Mewn un achos, arweiniodd gwybodaeth a dderbyniwyd gan awdurdod cynllunio lleol, a oedd yn codi pryderon ynghylch gwaredu pridd o ddatblygiad preswyl, at ymchwiliad gan CNC i safle yr oedd wedi dod o hyd

iddo lle roedd 3,500 tunnell o wastraff adeiladu a dymchwel wedi'i waredu'n anghyfreithlon trwy gamddefnydd o esemptiad U1.

Mae CNC yn parhau i ystyried yr ymateb gorfodi gorau ar gyfer y mater hwn, gan weithio gydag Awdurdod Cyllid Cymru mewn perthynas â'r gwaredu heb awdurdod.

## Astudiaeth achos 3 – gwiriadau cludwyr gwastraff partneriaeth yn Sir Gaerfyrddin

Llediodd Michael Mochan, o Faes Carafannau Giants Wharfe, Llansawel, yn euog i gludo gwastraff rheoledig heb gofrestru fel cludwr gwastraff yn Llysoedd Ynadon Abertawe ar 27 Tachwedd 2023. Cafodd Michael Mochan ddirwy o £1,000 a gorchmynnwyd iddo dalu gordal dioddefwr o £400 a chostau ymchwiliad llawn CNC o £2,025.

Ar 13 Ebrill 2023, cynhaliodd swyddog wedi'i secondio o Heddlu Dyfed-Powys i CNC a swyddog CNC wiriad trwydded cludo gwastraff ymyl y ffordd ar ddau ddyn a oedd yn galw o dŷ i dŷ yn Sir Gaerfyrddin, yn casglu metel sgrap gwastraff fel rhan o'r busnes yr oeddent yn ei weithredu.

Nid oedd Michael Mochan yn gallu dangos trwydded cludo gwastraff ar adeg y gwiriad a chytunodd i gofrestru gydag CNC fel cludwr gwastraff ac fel deliwr metel sgrap gyda'r awdurdod lleol. Gwnaethom waith dilynol ar ôl y digwyddiad a darparu gwybodaeth berthnasol i'w gynorthwyo gyda'i gais. Fodd bynnag, anwybyddodd Michael Mochan y cyngor a roddwyd a methodd â dod yn gludwr gwastraff cofrestredig yn gyfreithiol. Gwnaeth yr heddlu hefyd gymryd camau gorfodi mewn perthynas â diffygion i'w gerbyd, a oedd hefyd heb yswiriant.

Cost y drwydded cludo gwastraff gydag CNC yw £154 am dair blynedd. Cost trwydded deliwr sgrap gyda'r awdurdod lleol perthnasol yw £260 am dair blynedd. Yn dilyn erlyniad llwyddiannus, rhaid i Michael Mochan dalu cyfanswm o £3,420 mewn dirwyon a chostau. Yn ogystal, mae'r euogfarn hon hefyd yn golygu nad yw'r cwmni na'r cyfarwyddwr yn debygol o gael trwydded cludo gwastraff gan CNC yn y dyfodol.

# Gorfodaeth a sancsiynau

Gwyddom nad yw cydymffurfio bob amser yn digwydd – yn aml ar ddamwain ond weithiau ddim.Pan gaiff y rheolau eu torri, mae angen inni gymryd camau gorfodi effeithiol a chymesur i ddiogelu'r amgylchedd a chefnogi ymdrechion i ymateb i'r argyfyngau hinsawdd a natur.

Mae ein dull gorfodi a'n hadnoddau yn cael eu blaenoriaethu lle maen nhw'n cael yr effaith i wneud y canlynol:

- atal y drosedd neu sicrhau cydymffurfedd
- newid ymddygiad
- atal troseddau yn y dyfodol
- diogelu ac adfer ein hamgylchedd
- cynnal uniondeb rheoleiddiol

Yn ystod 2023, gwnaethom gwblhau 442 o achosion gorfodi, gyda 389 arall yn dal i fynd rhagddynt. Mae hyn oherwydd natur ein gwaith ymchwilio a gorfodi, o ystyried yr amser y gall ei gymryd i ymchwilio i ddigwyddiad, nodi troseddwyr posibl, cael barn gyfreithiol, a diweddaru ein systemau ar gynnydd a chanlyniadau gorfodi. O'r 831 o achosion yn 2023, cynhyrchwyd 46% o'n hymateb i ddigwyddiadau a 45% o weithgarwch a reoleiddir (cydymffurfedd), tra oedd 9% yn achosion pysgodfeydd. Mae dadansoddiad o'r achosion agored a chaeedig ar gyfer 2023 wedi'i nodi isod.

| Math ddigwyddiad | Achosion wedi eu terfynu | Achosion agored | Cyfanswm 2023 | % o'r cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| Pysgodfeydd | 52 | 21 | **73** | 9% |
| Llifogydd | 10 | 1 | **11** | 1% |
| Coedwigaeth | 26 | 56 | **82** | 10% |
| Amaethyddiaeth | 42 | 19 | **61** | 7% |
| Arall | 59* | 181** | **240** | 29% |
| Gwastraff | 125 | 49 | **174** | 21% |
| Dŵr | 128 | 62 | **190** | 23% |
| **Cyfanswm** | **442** | **389** | **831** | **100%** |

* Mae'r categori 'arall' yn cynnwys digwyddiadau fel bioamrywiaeth (gan gynnwys safleoedd a rhywogaethau a warchodir).

** Mae nifer yr achosion agored 'eraill' fel arfer yn uchel oherwydd nad yw rhai mathau o ddigwyddiadau wedi'u pennu na'u cofnodi ar adeg cyhoeddi.

Arweiniodd ein gweithgarwch gorfodi yn 2023 at 1,267 o gyhuddiadau ar wahân. Mae dadansoddiad o'n cyhuddiadau gorfodi yn ôl rheoliadau i'w weld isod.

| ***Deddf*** | **Nifer** | **%** |
|---|---|---|
| Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2016 | 432 | 34% |
| Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021 | 260 | 21% |
| Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 | 197 | 16% |
| Deddf Coedwigaeth 1967 | 101 | 8% |
| Deddf Pysgodfeydd Eogiaid a Dŵr Croyw 1975 | 91 | 7% |
| Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 | 58 | 5% |
| Deddf Adnoddau Dŵr 1991 | 36 | 3% |
| Cyhuddiadau o dan ddeddfwriaeth arall | 92 | 7% |

Gweithredwyd ein gweithgareddau gorfodi yn 2023 yn erbyn 799 o droseddwyr, yn cynnwys 304 o gwmnïau a 495 o unigolion. Mae'r tabl isod yn dangos sut mae ein gweithgarwch gorfodi yn cymharu â'r flwyddyn flaenorol.

| Blwyddyn | Achosion | Troseddwyr | Cyhuddiadau | Cwmnïau | Unigolion |
|---|---|---|---|---|---|
| **2023** | 831 | 799 | 1,267 | 304 | 495 |
| **2022** | 890 | 926 | 1,255 | 315 | 611 |

Dylid nodi y gall ein gweithgarwch gorfodi, mewn rhai achosion, rychwantu sawl cyfnod adrodd. Daw hyn yn fwy amlwg pan fydd swyddogion yn cael eu tynnu i mewn i ymchwiliadau cymhleth, yn enwedig y rhai sydd â chysylltiadau ag asiantaethau gorfodi eraill megis yr heddlu ac awdurdodau lleol. Gall hyn arwain at gyfnod hir rhwng y digwyddiad gwreiddiol a diwedd yr ymateb gorfodi. Dylid bod yn ofalus felly wrth fesur ein perfformiad gorfodi ar sail nifer y canlyniadau ac erlyniadau yn unig.

Mae'r tabl isod yn dangos nifer y cyhuddiadau a nodwyd yn ôl math o ddigwyddiad dros y pedair blynedd diwethaf.Y rheswm pam mae mwy o gyhuddiadau na nifer yr achosion yw oherwydd, mewn rhai achosion, mae troseddwr yn wynebu cyhuddiadau lluosog.

| Categori | 2022 | 2023 |
|---|---|---|
| Amaethyddiaeth | 19 | 263 |
| Bioamrywiaeth | 50 | 62 |
| Pysgodfeydd | 160 | 94 |
| Llifogydd | 47 | 25 |
| Coedwigaeth | 142 | 113 |
| Diwydiant | 27 | 11 |
| Gwastraff | 462 | 399 |
| Dŵr | 342 | 341 |

**Cyfanswmas:**

| Achosion / Cyhuddiadau | 2022 | 2023 |
|---|---|---|
| Achosion | 893 | 854 |
| Cyhuddiadau | 1,249 | 1,308 |

Mae gennym ystod eang o offer gorfodi a chosbi ar gael inni, fel yr amlygwyd yn ein Polisi Gorfodi a Sancsiynau. Mae'r dewis o offeryn yn dibynnu ar ddifrifoldeb a natur y drosedd, parodrwydd y troseddwr i gydymffurfio â gofynion rheoliadol, y trothwy tystiolaethol, a ffactorau lles y cyhoedd. Mae ein Hopsiynau Ymateb i Droseddau yn amlinellu'r ystod o offer gorfodi sydd ar gael i ni, gan gynnwys cyngor, rhybuddion, hysbysiadau gorfodi, sancsiynau sifil, ac erlyniad.

Ar gyfer mân droseddau, efallai y byddwn yn canolbwyntio ar addysg, gan ein bod yn aml yn dod o hyd i fwy o effeithiolrwydd wrth ddychwelyd i gydymffurfio trwy ddarparu cyngor ac arweiniad. Y nod yw sefydlu gweithredoedd adferol ac atal yr un peth rhag digwydd eto. Trwy ddarparu cyngor a chyfeirio at ganllawiau, ein nod yw helpu cwmnïau ac unigolion i

ddeall eu rhwymedigaethau, annog cydymffurfedd gwirfoddol yn rhagweithiol, ac ysbrydoli cwmnïau ac unigolion i gymryd camau blaengar wrth fynd i'r afael ag effaith amgylcheddol eu gweithredoedd. Hefyd, gellir cyflawni'r camau gwella hyn yn fwy effeithiol. Gallwn hefyd gyhoeddi hysbysiadau ffurfiol, megis hysbysiadau gwella, sy'n gofyn am gamau gweithredu penodol o fewn terfynau amser penodedig, neu rybuddiadau ffurfiol i bwysleisio disgwyliadau o ran cydymffurfio.

Mae'r tabl isod yn amlygu ein defnydd o'r ystod lawn o offer gorfodi a chosbi sydd ar gael i ni, wedi'u cyfuno os oes angen, i gyflawni'r canlyniadau gorau i'r amgylchedd a chymunedau.

| **Allbwn gorfodi** | **2022** | **2023** |
|---|---|---|
| Cyngor ac arweiniad* | 310 | 430 |
| Llythyrau rhybuddio* | 484 | 375 |
| Rhybuddiad ffurfiol | 34 | 28 |
| Erlyniadau | | |
| Achosion | 62 | 85 |
| Cyhuddiadau | 127 | 131 |
| Dirwyon | £659,025 | £648,320 |
| Costau | £148,690 | £113,862 |
| Hysbysiadau gorfodi | 65 | 24 |
| Hysbysiadau cosb benodedig | 8 | 1 |
| Cosbau sifil** | 5 | 2 |
| Dirymu trwydded | 2 | 0 |
| Dim camau pellach | 51 | 48 |

* Mae hyn yn cyfeirio at gyngor a chanllawiau neu lythyrau rhybuddio a gyhoeddwyd fel cam gorfodi. Felly nid yw'n cynnwys cyngor anffurfiol, na chyngor, arweiniad na rhybuddion a roddwn yn ystod gweithgaredd cydymffurfio a monitro.

** Mae gan CNC ystod gyfyngedig o gosbau sifil ar gael ar hyn o bryd.

Yn ogystal, aseswyd chwe chofrestriad cludwr, brocer a deliwr gwastraff ag euogfarnau perthnasol gennym yn 2023 a gwrthodwyd neu ddirymwyd tri o'r rhain. Mae hyn yn helpu i leihau'r cyfleoedd i weithredwyr troseddol gyflawni gweithgareddau gwastraff anghyfreithlon.

Pan fydd achosion difrifol o dorri amodau neu weithgareddau anghyfreithlon yn digwydd, byddwn yn defnyddio camau gorfodi cymesur ac angenrheidiol y gellir eu cyfiawnhau, a all gynnwys erlyn. Er mwyn sicrhau bod y camau gweithredu hyn yn llwyddiannus, rydym yn dilyn prosesau llym. Rhaid inni fod yn gymesur a phrofi bod ein gweithredoedd er budd y cyhoedd. Nid ydym yn erlyn heb reswm, ond mae'n ddull ataliol ac amddiffynnol pwysig ar gyfer y troseddau mwyaf difrifol sy'n peri'r risg fwyaf i'r amgylchedd.

| **Cyfanswm yr erlyniadau** | **Cyfanswm y cyhuddiadau** | **Cyfanswm y dirwyon** | **Cyfanswm y costau** |
|---|---|---|---|
| 85 | 126 | £648,320 | £113,612 |

Arweiniodd ein gwaith gorfodi yn 2023 at 85 o erlyniadau llwyddiannus, yn cynnwys 126 o gyhuddiadau. Mae manylion yr unigolion a'r cwmnïau hynny a erlynwyd yn 2023 wedi'u rhestru ar ddiwedd yr adroddiad hwn.

## Astudiaeth achos 1 – gweithgarwch heb drwydded ar afon Elwy, Abergele

Rhoddwyd gwybod i CNC am waith a wnaed gan dirfeddiannwr ar safle ar afon Elwy, ger Abergele. Roedd y tirfeddiannwr wedi adeiladu clawdd llifogydd, wedi tynnu graean o wely'r afon a'i osod ar hyd glan dde'r afon, ac wedi gosod slabiau concrit ar hyd glan chwith yr afon i frwydro yn erbyn erydiad.

Roedd angen trwydded gweithgarwch perygl llifogydd ar gyfer pob un o'r gweithgareddau hyn o dan Atodlen 25 o Reoliadau Trwyddedu Amgylcheddol 2016. O ganlyniad, cyhoeddodd CNC hysbysiad adfer ar y tirfeddiannwr i roi'r gorau i unrhyw waith pellach o fewn y sianel a'r gorlifdir. Cyflwynwyd hysbysiad adfer pellach yn manylu ar y camau gweithredu sydd eu hangen i fynd i'r afael â pherygl llifogydd a phryderon amgylcheddol. Roedd hyn yn cynnwys cael gwared ar yr arglawdd llifogydd, ailgyflwyno'r graean yn ôl i sianel yr afon, a chael gwared ar yr amddiffynfeydd concrit ar hyd y glannau. Prif bryder CNC oedd colli gorlifdir naturiol.

Ar ôl derbyn yr ail hysbysiad, gofynnodd undeb ffermio'r tirfeddiannwr am gyfarfod safle gydag CNC. O'r cyfarfod, daeth i'r amlwg bod bwnd lefel isel wedi bod yn ei le ers 2002 a darparwyd ffotograffau yn dyddio'n ôl i 2013. Fodd bynnag, roedd yn amlwg bod y gwaith mwy diweddar wedi codi'r arglawdd llifogydd (tua 1m i 1.5m yn uwch). Roedd yr adeiladau fferm wedi dioddef llifogydd yn ystod mis Tachwedd 2012.

Cytunwyd, gan fod y blociau concrit wedi bod yn eu lle ers sawl blwyddyn, y byddai eu symud yn achosi niwed amgylcheddol pellach ac yn cyflymu erydiad. Felly cytunwyd y gallent aros yn eu lle. Fodd bynnag, roedd yr hysbysiad yn nodi bod yn rhaid i waith adfer ar yr arglawdd llifogydd gael ei gwblhau erbyn 1 Awst 2023. Cytunodd y tirfeddiannwr hefyd i ailgyflwyno'r graean yn ôl i'r sianel a darparwyd tystiolaeth ffotograffig i ddangos bod hyn wedi'i gwblhau.

Derbyniwyd gohebiaeth bellach gan y tirfeddiannwr ym mis Chwefror 2023 yn gofyn a fyddai modd ail-leoli'r arglawdd llifogydd yn nes at y ffermdy a'r adeiladau cysylltiedig. Er na chynhaliwyd unrhyw fodelu hydrolig i ddangos effaith symud yr arglawdd llifogydd, rhoddwyd ystyriaeth i'r amddiffynfa hanesyddol a oedd wedi bod yno ers 2002 ynghyd â hanes llifogydd i'r adeiladau. Cytunodd CNC mai hwn fyddai'r canlyniad gorau ac y byddai'n galluogi ailgysylltu'r afon â'r gorlifdir.

Derbyniodd CNC gadarnhad fod y gwaith wedi'i wneud, a ddilynwyd gan ymweliad safle ar 14 Gorffennaf 2023. Roedd swyddogion CNC yn fodlon bod y gwaith heb drwydded wedi'i adfer a chyhoeddwyd llythyr rhybuddio, gyda chytundeb y byddai unrhyw weithgareddau perygl llifogydd yn y dyfodol yn cael eu trafod cyn i'r gwaith gael ei wneud ac y gwnaed cais am unrhyw drwydded gweithgarwch perygl llifogydd ofynnol.

## Astudiaeth achos 2 – erlyn troseddau gwastraff a llygredd ym Mro Morgannwg

Yn dilyn ymchwiliad mawr dros nifer o flynyddoedd, llwyddodd CNC i erlyn tair trosedd gwastraff a llygredd ar wahân ym Mro Morgannwg. Cafodd Nigel England a'i ddau gwmni gyfanswm dirwy o £81,950, gyda £27,857 arall mewn costau a gordaliadau dioddefwyr, yn y gwrandawiad dedfrydu yn Llys y Goron Caerdydd ar 2 Mehefin 2023.

Roedd SiteServ Recycling (SW) Limited yn wynebu troseddau mewn perthynas â thorri amodau trwyddedau amgylcheddol a storio gwastraff peryglus heb drwydded yn anghyfreithlon ar Ystad Fasnachu Llandŵ, yn dilyn tân mawr iawn ar y safle yn 2017. Roedd y gwastraff peryglus a ddarganfuwyd ar y safle gan swyddogion CNC yn fflamadwy ac yn cael ei storio mewn adeilad gorsaf trosglwyddo gwastraff a oedd yn cynnwys gwastraff hylosg fel plastigau, cardbord a phapur.Roedd rhywfaint o'r gwastraff anghyfreithlon hwn wedi'i guddio'n fwriadol ar y safle mewn lorïau ag ochrau llenni ers 2017.Er bod CNC wedi cyhoeddi hysbysiad gorfodi ym mis Awst 2017 i unioni achosion o dorri amodau a chydymffurfio ag amodau trwydded, roedd y gwastraff yn parhau i fod ar y safle. Cyhoeddodd CNC hysbysiad arall ym mis Ionawr 2019 gyda dyddiad cau o fis Medi 2019, a oedd hefyd heb ei fodloni.

Erlynwyd England Environmental (Northern) Limited am droseddau yn ymwneud â gwaith ar dir Nigel England yn Sain Dunwyd, gan achosi llygredd i Nant Aberthin. Rhwng mis Ionawr 2020 a mis Chwefror 2021, ymchwiliodd CNC i ddigwyddiadau llygredd lluosog, a olrheiniwyd gan swyddogion CNC yn ôl i fferm Pwll y Darren, lle arweiniodd rheoli gwastraff amhriodol a diffyg mesurau lliniaru at ddŵr brown a lefelau uchel o solidau crog yn mynd i mewn i'r cwrs dŵr. Gwaethygodd peiriannau trwm a draeniad annigonol y mater, gan achosi difrod amgylcheddol sylweddol dros y cyfnod hwn.

Roedd y drydedd ddedfryd am droseddau Nigel England mewn perthynas â thrin, gwasgaru a chladdu gwastraff ar fferm Pwll y Darren yn Llanddunwyd. Ar 22 Gorffennaf 2019, daeth swyddogion CNC o hyd i bentyrrau mawr o blastigion wedi'u rhwygo a phridd, ar safle heb drwydded amgylcheddol i ganiatáu unrhyw weithgarwch trin gwastraff. Er bod CNC wedi cyhoeddi hysbysiad i symud y gwastraff a'i waredu mewn safle â thrwydded, datgelodd ymweliadau dilynol fod y gwastraff wedi'i adleoli ond heb ei symud yn ôl yr angen.

Cafodd SiteServ Recycling (SW) Ltd ddirwy o £70,650 a gorchymyn i dalu costau CNC o £24,216 a gordal dioddefwr o £170, cafodd England Environmental (Northern) Ltd ddirwy o £6,300 a gorchymyn i dalu £2,100 mewn costau a gordal dioddefwr o £190, a chafodd Nigel England ddirwy o £3,000 a gorchymyn i dalu £1,000 mewn costau a gordal dioddefwr o £181.

## Astudiaeth achos 3 – erlyn gollyngiadau dŵr anghyfreithlon ar afon Llwyd, Torfaen

Ym mis Mai 2023, gorchmynnwyd Taylor Wimpey i dalu cyfanswm o £488,772 ar ôl methu

â gweithredu mesurau priodol i atal digwyddiadau llygredd lluosog a effeithiodd ar afon Llwyd a'i lednentydd ym Mhont-y-pŵl yn 2021.

Cafwyd y cwmni adeiladu yn euog o gyhuddiad yn ymwneud â thorri'r Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol yn Llys Ynadon Cwmbrân ym mis Mai 2023. Digwyddodd troseddau llygredd lluosog a achoswyd gan weithgareddau gollwng dŵr anghyfreithlon ar safle Glanfa Edlogan, ar hyd Ffordd Bevan yn Sebastopol, ger Pont-y-pŵl, rhwng mis Ionawr a mis Hydref 2021.

Datgelodd archwiliadau a gynhaliwyd gan swyddogion CNC fod y llygrydd ar bob achlysur wedi'i achosi gan ddŵr ffo o'r safle, a oedd wedi'i halogi â silt. Cyfarfu swyddogion CNC ar y safle â chynrychiolwyr Taylor Wimpey ym mis Chwefror 2021, i drafod y gofynion cais am drwyddedau angenrheidiol a'r mesurau lliniaru yr oedd angen eu rhoi ar waith er mwyn lleihau'r risg o lygredd.

Cyflwynwyd llythyr rhybuddio i Taylor Wimpey ar 23 Chwefror a 13 Mai ac, eto, dros y misoedd dilynol, roedd chwe digwyddiad arall wedi'u cadarnhau a phum digwyddiad heb eu cadarnhau yn ymwneud â llygredd a achoswyd, neu yr honnir iddo gael ei achosi, gan ddŵr silt yn gollwng o safle datblygu Glanfa Edlogan.

Yn ystod ymweliad dilynol ar 29 Hydref, datgelodd samplau dŵr a gafwyd ac a ddadansoddwyd gan swyddogion gynnydd sylweddol yn lefelau'r solidau crog (gronynnau solet bach sy'n aros mewn daliant mewn dŵr) yn y cwrs dŵr.

Gall hyn gael effaith negyddol ar bysgod ac infertebratau eraill, gan rwystro eu tagellau a lleihau treiddiad golau yn y dŵr. Gall dŵr silt o safleoedd adeiladu hefyd gynnwys cemegau – fel tanwydd ac olew o beiriannau neu eneraduron – a all hefyd gael effaith andwyol ar yr amgylchedd. O ganlyniad, cafodd Taylor Wimpey ddirwy o £480,00, a gorchmynnwyd iddo dalu gordal o £181 a £8,591.40 mewn costau, gan ddod â'r cyfanswm i £488,772.40.

# Cod ar gyfer Gwasanaeth Erlyn y Goron

Rhestrir isod y gorchmynion ategol y gall llys eu gwneud yn dilyn euogfarn ynghyd â'u defnydd yn 2023 mewn perthynas ag achosion a ddygwyd gennym ni:

**Gweithdrefn Un Ynad**
77 (gwialen a llinell)

**Dedfrydau o garchar**
4

**Anghymhwyso cyfarwyddwyr**
Amherthnasol

**Gorchmynion atafaelu a'r Ddeddf Enillion Troseddau**

| | |
|---|---|
| Karl Anthony Jones | Gwnaed gorchymyn atafaelu am y swm o £1.00 |
| Gavin Taylor | Gwnaed gorchymyn atafaelu am y swm o £1.00 |
| Anthony Park | Gwnaed gorchymyn atafaelu am y swm o £7,705 a gorchymyn digolledu am £7,705.00 – cyfarwyddodd y llys fod y swm o £7,705 a |

| | |
|---|---|
| | oedd yn destun y gorchymyn atafaelu yn daladwy er mwyn diwallu'r gorchymyn digolledu |
| Samuel Gordon | Atafaeliad o £7,000 |
| Emlyn Rees | Gwnaed gorchymyn atafaelu am y swm o £61,791.50 |

## Astudiaeth achos – fforffedu ar gyfer potsio eogiaid ar afon Teifi

Cynhaliwyd gwrandawiad o dan y Ddeddf Enillion Troseddau yn Llys y Goron Abertawe ar 28 Gorffennaf 2023. Tybir mai hwn oedd y cyntaf o'i fath yn Nghymru a Lloegr ar gyfer potsio eogiaid.

Atafaelwyd £18,524.25 gan arweinydd yr ymgyrch botsio enfawr ar afon Teifi i dalu am gyfran o'r enillion a wnaeth o'i weithgarwch troseddol. Cafodd yr arian ei atafaelu oddi wrth Emlyn Rees, o Genarth yng Ngheredigion, ar ôl i farnwr yn Llys y Goron Abertawe ganiatáu'r cais i atafaelu.

Cafwyd Mr Rees yn euog o gyhuddiadau pysgota anghyfreithlon yn 2022 ar ôl i ni ddwyn cyhuddiadau yn ei erbyn. Yna gwnaethom gais llwyddiannus o dan y Ddeddf Enillion Troseddau i atafaelu budrelw ariannol Mr Rees o'i weithgareddau potsio. Ym mis Gorffennaf 2022, gorchmynnodd barnwr yn Llys y Goron Abertawe y dylid atafaelu £61,791.50 oddi wrtho.

Gan nad oedd Mr Rees yn gallu talu'r swm atafaelu, gorfu iddo dalu swm enwol o £1.Byddai gweddill y ddyled yn cael ei hatafaelu pe bai'n etifeddu arian neu asedau yn y dyfodol.

Gan fod Mr Rees i fod i etifeddu rhywfaint o arian, gwnaeth CNC gais i atafaelu'r arian hwnnw i'w dalu tuag at ei rwymedigaeth a orchmynnwyd gan y llys. Cafodd Mr Rees dri mis i dalu'r £18,524.25 yn ogystal â dedfryd o naw mis o garchar yn sgil diffygdaliad.

Nid yw'r swm a atafaelwyd oddi wrth Mr Rees yn cwmpasu'r cyfan o'r swm atafaelu a orchmynnwyd gan y llys, a bydd y ddyled sy'n weddill yn cael ei hatafaelu oddi wrth Mr Rees os bydd yn cael arian neu asedau ar ôl rhywun eto yn y dyfodol.

Cadwodd Mr Rees gyfriflyfr manwl o'i ddalfeydd anghyfreithlon.Dros gyfnod o saith mlynedd, gwnaed 373 cofnod dyddiedig o ddal pysgod yn manylu ar nifer a phwysau'r pysgod a ddaliwyd, gan gynnwys 989 o frithyllod y môr a 302 o eogiaid. Mae pysgota anghyfreithlon Mr Rees a'i weithwyr rhwng 2013 a 2020 wedi arwain at golled amcangyfrifedig o 686,534 o wyau eogiaid a 2,285,164 o wyau brithyllod y môr. Mae hyn yn cynrychioli colled enfawr mewn potensial bridio.

**Gorchmynion Ymddygiad Gwrthgymdeithasol**
Amherthnasol

**Fforffedu offer**
14 achos o offer pysgota yn cael eu hatafaelu

**Gwaharddiad rhag gyrru**
Amherthnasol

**Digolllediad arall (ac eithrio o dan y Ddeddf Enillion Troseddau)**
Cyfanswm o £590 mewn gorchmynion digolledu o ganlyniad i beidio â phrynu trwyddedau ar ôl dyddiad y digwyddiad

**Atafaelu cerbydau**
Amherthnasol

**Gorchmynion cymunedol**
Phillip Johns – gorchmynnwyd i dalu £13,000 mewn costau a chwblhau 200 awr o waith gwirfoddol

# Trwyddedu ein gweithgareddau ein hunain

Mewn rhai achosion, mae'r ddeddfwriaeth yn pennu’r broses ar gyfer trwyddedu ein gweithgareddau ein hunain.Er nad yw’r rhan fwyaf o’r ddeddfwriaeth berthnasol yn ymwneud yn benodol â hunandrwyddedu, cydymffurfio a gorfodi, mae *Gorchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Swyddogaethau)* 2013 (“y Gorchymyn Swyddogaethau”) yn gosod dyletswydd arnom i gael cynllun cyhoeddi, y mae rhan ohono yn ymwneud â hunandrwyddedu.

Lle rydym yn gyfrifol am gyfundrefn reoleiddio, yna byddwn yn cymhwyso'r safonau dilynol i'n ceisiadau ni am drwydded, ein penderfyniadau ynglŷn â’n ceisiadau am drwyddedau, sut rydym yn cymryd rhan mewn ymgynghoriadau mewnol, ein gwaith o asesu cydymffurfedd, a’n hymchwiliadau i droseddau posibl mewn perthynas â'n gweithgareddau ein hunain.Mae’r safonau hefyd yn berthnasol i weithgareddau trwyddedu, cydymffurfio a gorfodi mewn perthynas â gwaith a wneir gan gontractwyr ar ein rhan.

Mae ein safonau yn sicrhau ein bod yn gwneud y canlynol:

- Rydym yn arfer yr un lefel o graffu a safonau ar gyfer ein gweithgareddau ein hunain â'r rhai sy'n ofynnol ar gyfer unigolion a busnesau allanol.Yn benodol, rydym yn ceisio defnyddio'r dull hwn cyn belled ag y bo'n ymarferol, yng nghyd-destun ein polisi gorfodi ac erlyn cyhoeddedig, gan gynnwys dilyn ystyriaethau budd y cyhoedd perthnasol.
- Rydym yn dilyn prosesau penderfynu clir a thryloyw sy'n gadarn pan fyddant yn cael eu herio ac wedi’u dogfennu’n glir.
- Mae lefel briodol o wahanu swyddogaethau rhwng yr uned fusnes sy'n cael ei rheoleiddio a'r tîm sy'n cyflawni'r gwaith rheoleiddio.Mae hyn er mwyn helpu i ddangos tegwch a thryloywder, ac i gefnogi hyder y cyhoedd a Llywodraeth Cymru yn ein penderfyniadau.

Yn ogystal, os byddwn yn methu â chydymffurfio ag amodau neu achosi digwyddiad amgylcheddol, byddwn yn cymryd camau gorfodi priodol yn yr un modd ag unrhyw drosedd amgylcheddol arall. Rydym yn cynnal gwahaniad swyddogaethol a llinell reoli rhwng yr uned weithredol sy'n gyfrifol am y mater a'r tîm rheoleiddio a gorfodi. Mae’r tabl isod yn dangos y camau a gymerwyd yn erbyn CNC ers blwyddyn ariannol 2022/23.

| Camau gorfodi | 2022/23 | 2023/24 |
|---|---|---|
| Dim camau pellach | 9 | 8 |
| Cyngor a chanllawiau | 2 | 5 |

| | | |
|---|---|---|
| Llythyr rhybuddio | 1 | 0 |
| Parhaus | 0 | 2 |
| Hysbysiad statudol | 1 | 1 |
| **Cyfanswm** | **13** | **16** |

# Rhagolwg

Rydym yn ymdrechu'n barhaus i wella ein gwaith gyda phobl a busnesau i atal a lleihau llygredd, gan ddefnyddio'r pwerau a dyletswyddau statudol sydd ar gael i ni. Mae ein timau'n ymroddedig i wneud popeth gyda'r pwerau hynny, a'r adnoddau sydd ar gael inni, i fynd i'r afael â'r heriau hyn.

Mewn byd sy'n newid yn gyflym, mae'n rhaid i ni ymateb i'r her o reoleiddio diwydiannau presennol a newydd. Mae croesawu arloesedd hefyd yn hanfodol i sut rydym yn ymateb yn effeithiol i faterion amgylcheddol newydd, sut rydym yn cyfyngu ar niwed, a sut rydym yn cynnal ymddiriedaeth y cyhoedd. Er mwyn cyflawni hyn, mae angen inni sicrhau bod ein hoffer deddfwriaethol yn addas ar gyfer yr heriau y mae Cymru yn eu hwynebu. Rydym o blaid newidiadau deddfwriaethol a pholisi effeithiol ar lefel Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU i ysgogi'r newid trawsnewidiol sydd ei angen ar ein hamgylchedd naturiol yng Nghymru.

Wrth edrych i'r dyfodol, byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar yr argyfyngau hinsawdd a natur, a lleihau llygredd. Mae ein cynllun corfforaethol hyd at 2030 yn canolbwyntio'n fwriadol ar fynd i'r afael â'r bygythiad triphlyg hwn, wrth fynd ar drywydd rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy. Mae'r cynllun yn amlinellu lle y gallwn gael yr effaith fwyaf, a lle mae'n rhaid inni addasu, arloesi a chydweithio i gyrraedd targedau byd-eang 2030 a 2050 ar gyfer yr hinsawdd a natur.

Ond fel pob corff cyhoeddus, mae ein hadnoddau yn gyfyngedig. Ariennir ein gweithgareddau gorfodi yn bennaf drwy gymorth grant Llywodraeth Cymru, ac yn unol ag egwyddorion Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru, er ein bod hefyd yn ceisio adfer costau unrhyw weithgareddau gorfodi, lle y bo'n bosib. Rhaid inni gofio hefyd nad yw'r dirwyon a godir gan y llysoedd, er eu bod yn rhwystr mawr, yn mynd yn uniongyrchol i ariannu gwelliannau amgylcheddol yng Nghymru.Yn lle hynny, maen nhw'n mynd i Drysorlys y DU, sy'n golygu bod arian i bob pwrpas yn cael ei dynnu allan o'r amgylchedd tra bod y problemau llygredd yn parhau.

Felly, felllawer o rai eraill, mae'n rhaid inni wneud penderfyniadau gwybodus ynghylch sut a ble i ganolbwyntio ein hymdrechion, gan flaenoriaethu camau gweithredu sy'n sicrhau'r canlyniadau gorau i bobl a natur ac sy'n sicrhau'r gwelliannau i'n hamgylchedd naturiol yr ydym i gyd am eu gweld.Mae newid y ffordd yr ydym yn ymyrryd – gan ddefnyddio offer gorfodi effeithlon sy'n adennill mwy o gostau – yn cynnig y potensial i roi'r canlyniadau cywir i ni wrth wneud i'n hadnoddau fynd ymhellach.

Gyda hyn mewn golwg, rydym yn mynd ar drywydd sawl cyfle i helpu i gynyddu a chryfhau ein gweithgareddau gorfodi a rheoleiddio, er mwyn sicrhau bod unigolion a busnesau yn deall ac yn cymryd perchnogaeth a chyfrifoldeb am gydymffurfio â rheoliadau ac unrhyw ganiatadau sydd ganddynt. Er enghraifft, rydym wedi sefydlu tîm Rhaglen Diwygio Rheoleiddio Gwastraff i gefnogi rhaglen Llywodraeth Cymru o ddiwygiadau gwastraff deddfwriaethol fel y nodir yn strategaethau *Mwy nag Ailgylchu* a *Cymru Sero Net*. Rydym

yn dylunio ac yn gweithredu modelau cyflawni rheoleiddiol i sicrhau y gallwn gyflawni ein dyletswyddau statudol newydd. Bydd y diwygiadau yn newid y dirwedd rheoleiddio gwastraff ac yn helpu i symud Cymru tuag at economi fwy cylchol.

Yn 2024, rydym wedi gweld nifer o fframweithiau deddfwriaethol a phenderfyniadau rheoleiddiol newydd yn cael eu rhoi ar waith yr adroddir arnynt y flwyddyn nesaf. Ym mis Ebrill 2024, gwelsom reoliadau ailgylchu yn y gweithle newydd Llywodraeth Cymru yn cael eu rhoi ar waith, sy’n ei gwneud yn ofynnol i bob busnes a safle cyhoeddus a thrydydd sector yng Nghymru wahanu rhai mathau o wastraff yn barod i’w casglu. Gwelsom hefyd weithredu *Bil Amaethyddol Cymru 2022* ar 1 Ebrill 2024. Mae’r Bil newydd hwn yn cynnwys gwelliant i’r ddeddfwriaeth bresennol, sef *Deddf Coedwigaeth 1967*, sy’n rhoi pwerau newydd i ni ddiwygio, atal neu ddirymu trwydded torri coed, er mwyn helpu i ddiogelu cynefinoedd a rhywogaethau’n well a darparu amddiffyniad rhag niwed amgylcheddol. Daeth gofynion storio slyri Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021 i rym ar 1 Awst 2024. Darperir ein gwaith yn erbyn y gofynion hyn yn adroddiad y flwyddyn nesaf.

Erys rhai gofynion rheoleiddiol yn y cyfnod pontio. Mae adolygiad diweddar o’r drefn esemptiadau gwastraff wedi arwain at Lywodraeth Cymru a Defra yn cynnig newidiadau i'r drefn i fynd i'r afael â throseddau gwastraff a pherfformiad gwael yn y diwydiant gwastraff. Bydd rhai esemptiadau yn cael eu dileu, bydd gan eraill amodau newydd, a bydd y rheolau ynghylch cofrestru hefyd yn newid ar gyfer pob esemptiad. Rydym yn disgwyl i’r newidiadau hyn gael eu rhoi ar waith dros yr ychydig flynyddoedd nesaf. Byddwn yn parhau i gefnogi'r rhai sydd ag esemptiadau gwastraff i roi’r wybodaeth ddiweddaraf iddynt a byddwn yn darparu gwybodaeth bellach pan fo angen.

Rydym yn ymwybodol o'r diddordeb uwch gan y cyhoedd yn ein hamgylchedd – ac yn gwbl briodol felly. Mae lleisiau ar draws pob rhan o gymdeithas yn benderfynol nad yw’r arfer yn ddigon da. Ac rydym yn cytuno. Rydym yn wynebu pwysau parhaus ar ein hamgylchedd naturiol, gyda diffyg cydymffurfio, trosedd a llygredd yn achosi difrod sylweddol y gellir ei osgoi, yn effeithio ar gymunedau, ac yn tanseilio busnesau cyfreithlon.

I ni, mae cynnal a gorfodi llinell sylfaen reoleiddiol ar gyfer dyfodol cynaliadwy yn allweddol. Nid oes amheuaeth y bydd cyrraedd targedau a cherrig milltir rhyngwladol 2030 a 2050 yn galw am weithredu brys ac arloesol ar bob lefel.Byddwn yn parhau i ymdrechu i sicrhau man lle mae llygredd yn cael ei atal rhag digwydd yn y lle cyntaf, lle mae ein sectorau rheoleiddiedig yn blaenoriaethu eu cyfrifoldebau amgylcheddol, a lle mae natur a phobl yn ffynnu gyda’i gilydd.

# Erlyniadau

## Gwastraff a diwydiant

### Cwmnïau

| Dyddiad y canlyniad | Cwmni | Prif gyhuddiad | Cyhuddiadau | Dirwyon | Costau |
|---|---|---|---|---|---|
| **28-Ebr-23** | Euro-Worldwide Trading Limited | Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2016 | 4 | £1,500 | £5,000 |
| **19-Mehefin-23** | Siteserv Recycling (SW) Ltd | Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2016 | 4 | £66,000 | £24,216.66 |
| **19-Mehefin-23** | Siteserv Recycling (SW) Ltd | Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2016 | 1 | £3,325 | £0 |
| **19-Mehefin-23** | Siteserv Recycling (SW) Ltd | Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2016 | 2 | £6,650 | £0 |
| **19-Mehefin-23** | Siteserv Recycling (SW) Ltd | Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2016 | 1 | £3,325 | £0 |
| **26-Gorffennaf-23** | Whites Recycling Ltd | Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2016 | 5 | £28,000 | £13,120 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **06-Rhag-23** | Asbestos North West & Wales | Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2016 | 4 | £20,000 | £11,853.25 |

## Unigolion

| Dyddiad y canlyniad | Enw | Prif gyhuddiad | Cyhuddiadau | Dirwyon | Costau |
|---|---|---|---|---|---|
| **28-Chwef-23** | Philip Mickeli | Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 (fel y'i diwygiwyd) | 3 | £320 | £1,840.50 |
| **18-Ebr-23** | Jordan Jay Vatsaloo | Deddf yr Amgylchedd 1995 | 1 | £500 | £500 |
| **19-Ebr-23** | Samuel Gordon Nookie Burton | Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 (fel y'i diwygiwyd) | 1 | Deddf Enillion Troseddau | £0 |
| **11-Mai-23** | Amanda Kane | Deddf yr Amgylchedd 1995 | 1 | £660 | £1,058.06 |
| **19-Mehefin-23** | Nigel Evan Fisher England | Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 (fel y'i diwygiwyd) | 1 | £3,000 | £0 |
| **27-Mehefin-23** | Philip Johns | Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 | 3 | Gorchymyn Cymunedol | £13,915.09 |
| **19-Hydref-23** | John Rhys Bray | Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 | 1 | £7,000 | £1,000 |
| **15-Tach-23** | Neville Pike | Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 | 1 | £625 | £4,316.58 |
| **21-Tach-23** | Daniel Johnothan Jenkins | Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 (fel y'i diwygiwyd) | 4 | £7,000 | £3,125 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **28-Tach-23** | Michael Rhys J Mochan | Deddf Rheoli Llygredd (Diwygio) 1989 | 1 | £1,000 | £2,025 |

## Bioamrywiaeth

| Dyddiad y canlyniad | Enw | Prif gyhuddiad | Cyhuddiadau | Dirwyon | Costau |
|---|---|---|---|---|---|
| **24-Awst-23** | Adrian McLoughlin | Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 | 2 | £180 | £1,500 |

## Pysgodfeydd

| Dyddiad y canlyniad | Enw'r unigolyn | Math o drosedd | Prif gyhuddiad | Nifer y cyhuddiadau | Dirwyon | Costau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **11-Ionawr-23** | Robert Simpson | Gwialen a lein | Deddf Pysgodfeydd Eogiaid a Dŵr Croyw 1975 | 2 | £525 | £877.50 |
| **12-Ionawr-23** | Arkadiusz Kazimiers Banachowicz | Pysgodfeydd | Deddf Pysgodfeydd Eogiaid a Dŵr Croyw 1975 | 1 | £200 | £500 |
| **23-Ionawr-23** | Catalin Negu | Pysgodfeydd | Deddf Pysgodfeydd Eogiaid a Dŵr Croyw 1975 | 3 | £990 | £500 |
| **26-Ionawr-23** | Peter Nicholls | Casglu cocos | Deddf Pysgodfeydd Môr (Pysgod Cregyn) 1967 | 2 | £520 | £3,400 |
| **01-Chwef-23** | Leszek Piotr Mitosek | Pysgodfeydd | Deddf Pysgodfeydd Eogiaid a Dŵr Croyw 1975 | 2 | £275 | £0 |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **01-Chwef-23** | Pawel Mitosek | Pysgodfeydd | Deddf Pysgodfeydd Eogiaid a Dŵr Croyw 1975 | 2 | £183 | £150 |
| **08-Maw-23** | Justin Rayne Davies | Gwialen a lein | Deddf Dwyn 1968 | 2 | £200 | £127.30 |
| **23-Maw-23** | Nicholas Roger Bonham | Gwialen a lein | Deddf Pysgodfeydd Eogiaid a Dŵr Croyw 1975 | 2 | £105 | £400 |
| **23-Maw-23** | Andrew "Mark" Davies | Gwialen a lein | Deddf Pysgodfeydd Eogiaid a Dŵr Croyw 1975 | 2 | £220 | £400 |
| **30-Maw-23** | Mark Williams | Pysgodfeydd | Deddf Adnoddau Dŵr 1991 | 1 | £100 | £85 |
| **30-Maw-23** | Paul Hughes | Pysgodfeydd | Deddf Adnoddau Dŵr 1991 | 2 | £166 | £85 |
| **31-Maw-23** | Christoph er Thomas Lloyd | Gwialen a lein | Deddf Pysgodfeydd Eogiaid a Dŵr Croyw 1975 | 1 | £146 | £127.30 |
| **31-Maw-23** | Craig Ware | Gwialen a lein | Deddf Pysgodfeydd Eogiaid a Dŵr Croyw 1975 | 1 | £40 | £127.30 |
| **31-Maw-23** | Tyler Davidson | Pysgodfeydd | Deddf Pysgodfeydd Eogiaid a Dŵr Croyw 1975 | 1 | £40 | £127.30 |
| **31-Maw-23** | Jamie Ellis | Gwialen a lein | Deddf Pysgodfeydd Eogiaid a Dŵr Croyw 1975 | 1 | £660 | £127.30 |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **31-Maw-23** | Ronald Gerrard Francis Clamp | Gwialen a lein | Deddf Pysgodfeydd Eogiaid a Dŵr Croyw 1975 | 1 | £40 | £127.30 |
| **31-Maw-23** | Milton Davies | Gwialen a lein | Deddf Pysgodfeydd Eogiaid a Dŵr Croyw 1975 | 1 | £220 | £127 |
| **21-Ebr-23** | Terrance Purvey | Pysgodfeydd | Deddf Adnoddau Dŵr 1991 | 2 | £280 | £1,000 |
| **25-Ebr-23** | John D Simister | Pysgodfeydd | Deddf Adnoddau Dŵr 1991 | 1 | | £200 |
| **22-Mai-23** | Gerald Morris | Pysgodfeydd | Deddf Pysgodfeydd Eogiaid a Dŵr Croyw 1975 | 1 | £40 | £100 |
| **14-Mehefin-23** | Thomas J Bond | Pysgodfeydd | Deddf Pysgodfeydd Eogiaid a Dŵr Croyw 1975 | 1 | £40 | £127.30 |
| **14-Mehefin-23** | Geraint Higgins | Gwialen a lein | Deddf Pysgodfeydd Eogiaid a Dŵr Croyw 1975 | 1 | £120 | £127.30 |
| **26-Mehefin-23** | Kurtis Dalton | Gwialen a lein | Deddf Pysgodfeydd Eogiaid a Dŵr Croyw 1975 | 1 | £220 | £127.30 |
| **28-Mehefin-23** | Thomas Anthony Hill | Gwialen a lein | Deddf Pysgodfeydd Eogiaid a Dŵr Croyw 1975 | 1 | Dirwy | £127.30 |
| **28-Mehefin-23** | Paul Anthony Davies | Gwialen a lein | Deddf Pysgodfeydd | 1 | £97 | £127.30 |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Eogiaid a Dŵr Croyw 1975 | | | |
| **28-Mehefin-23** | Nigel Doubler | Gwialen a lein | Deddf Pysgodfeydd Eogiaid a Dŵr Croyw 1975 | 1 | £146 | £127.30 |
| **18-Gorffennaf-23** | Daniel Anthony John | Gwialen a lein | Deddf Pysgodfeydd Eogiaid a Dŵr Croyw 1975 | 1 | £220 | £100 |
| **18-Gorffennaf-23** | Jordan Howe | Gwialen a lein | Deddf Pysgodfeydd Eogiaid a Dŵr Croyw 1975 | 1 | £220 | £100 |
| **31-Gorffennaf-23** | Michael Glyn Thomas | Gwialen a lein | Deddf Pysgodfeydd Eogiaid a Dŵr Croyw 1975 | 1 | £143 | £127.30 |
| **31-Gorffennaf-23** | Benjamin Howells | Gwialen a lein | Deddf Pysgodfeydd Eogiaid a Dŵr Croyw 1975 | 1 | £112 | £127.30 |
| **31-Gorffennaf-23** | Deon Wilson | Gwialen a lein | Deddf Pysgodfeydd Eogiaid a Dŵr Croyw 1975 | 1 | £220 | £157.30 |
| **31-Gorffennaf-23** | Brian Wilson | Gwialen a lein | Deddf Pysgodfeydd Eogiaid a Dŵr Croyw 1975 | 1 | £220 | £157 |
| **31-Gorffennaf-23** | David Wilson | Pysgodfeydd | Deddf Pysgodfeydd Eogiaid a Dŵr Croyw 1975 | 1 | £220 | £157.30 |
| **06-Medi-23** | Lee Nash | Gwialen a lein | Deddf Pysgodfeydd | 1 | £220 | £127.30 |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Eogiaid a Dŵr Croyw 1975 | | | |
| **06-Medi-23** | Martyn Smith | Gwialen a lein | Deddf Pysgodfeydd Eogiaid a Dŵr Croyw 1975 | 1 | £115 | £127.30 |
| **06-Medi-23** | Joshua Averis | Gwialen a lein | Deddf Pysgodfeydd Eogiaid a Dŵr Croyw 1975 | 1 | £220 | £127.30 |
| **06-Medi-23** | Guus Ramackers | Gwialen a lein | Deddf Pysgodfeydd Eogiaid a Dŵr Croyw 1975 | 1 | £146 | £127.30 |
| **06-Medi-23** | Ashley Graham Watters | Gwialen a lein | Deddf Pysgodfeydd Eogiaid a Dŵr Croyw 1975 | 1 | £40 | £127.30 |
| **06-Medi-23** | Ian Cox | Gwialen a lein | Deddf Pysgodfeydd Eogiaid a Dŵr Croyw 1975 | 1 | £146 | £127.30 |
| **06-Medi-23** | Nicky James | Gwialen a lein | Deddf Pysgodfeydd Eogiaid a Dŵr Croyw 1975 | 1 | £115 | £127.30 |
| **12-Hydref-23** | John Paul Kelly | Gwialen a lein | Deddf Pysgodfeydd Eogiaid a Dŵr Croyw 1975 | 1 | £220 | £127.30 |
| **12-Hydref-23** | Ross Williams | Gwialen a lein | Deddf Pysgodfeydd Eogiaid a Dŵr Croyw 1975 | 1 | £220 | £220.00 |
| **12-Hydref-23** | Ashley Cunliffe | Gwialen a lein | Deddf Pysgodfeydd | 1 | £40 | £133 |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Eogiaid a Dŵr Croyw 1975 | | | |
| **12-Hydref-23** | Alan Craig Evans | Gwialen a lein | Deddf Pysgodfeydd Eogiaid a Dŵr Croyw 1975 | 1 | £220 | £127.30 |
| **12-Hydref-23** | Eduard Vagasi | Gwialen a lein | Deddf Pysgodfeydd Eogiaid a Dŵr Croyw 1975 | 1 | £133 | £127.30 |
| **12-Hydref-23** | Daniel Anthony John | Gwialen a lein | Deddf Pysgodfeydd Eogiaid a Dŵr Croyw 1975 | 1 | £220 | £127.30 |
| **12-Hydref-23** | Richard Adam Davies | Gwialen a lein | Deddf Pysgodfeydd Eogiaid a Dŵr Croyw 1975 | 1 | £146 | £133 |
| **12-Hydref-23** | Jordan William Brown | Gwialen a lein | Deddf Pysgodfeydd Eogiaid a Dŵr Croyw 1975 | 1 | £220 | £133 |
| **17-Hydref-23** | Callum Way | Gwialen a lein | Deddf Pysgodfeydd Eogiaid a Dŵr Croyw 1975 | 1 | £100 | £100 |
| **17-Hydref-23** | Daniel Ogelsby | Gwialen a lein | Deddf Pysgodfeydd Eogiaid a Dŵr Croyw 1975 | 1 | £220 | £100 |
| **17-Hydref-23** | Nathan Davies | Gwialen a lein | Deddf Pysgodfeydd Eogiaid a Dŵr Croyw 1975 | 3 | £660 | £100 |
| **17-Hydref-23** | Grant Howells | Gwialen a lein | Deddf Pysgodfeydd | 1 | £220 | £100 |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Eogiaid a Dŵr Croyw 1975 | | | |
| **19-Hydref-23** | Steffan John Davies | Gwialen a lein | Deddf Pysgodfeydd Eogiaid a Dŵr Croyw 1975 | 1 | £150 | £100 |
| **25-Hydref-23** | Marcus Perry | Gwialen a lein | Deddf Pysgodfeydd Eogiaid a Dŵr Croyw 1975 | 1 | £96 | £127.30 |
| **02-Tach-23** | Glynn Ford | Gwialen a lein | Deddf Pysgodfeydd Eogiaid a Dŵr Croyw 1975 | 1 | | £100.00 |
| **15-Tach-23** | Grant Quincey | Gwialen a lein | Deddf Pysgodfeydd Eogiaid a Dŵr Croyw 1975 | 2 | £120 | £127.30 |
| **15-Tach-23** | Christian Byrne | Gwialen a lein | Deddf Pysgodfeydd Eogiaid a Dŵr Croyw 1975 | 1 | £220 | £127.30 |
| **15-Tach-23** | Jay Matthews | Gwialen a lein | Deddf Pysgodfeydd Eogiaid a Dŵr Croyw 1975 | 1 | £40 | £127.30 |
| **20-Rhag-23** | Cory Lee | Gwialen a lein | Deddf Pysgodfeydd Eogiaid a Dŵr Croyw 1975 | 1 | £220 | £127.30 |
| **20-Rhag-23** | Lee David Farrar | Gwialen a lein | Deddf Pysgodfeydd Eogiaid a Dŵr Croyw 1975 | 1 | £220 | £127.30 |
| **20-Rhag-23** | Rhys Harries | Gwialen a lein | Deddf Pysgodfeydd | 1 | £40 | £127.30 |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Eogiaid a Dŵr Croyw 1975 | | | |
| **20-Rhag-23** | William Sean Bates | Gwialen a lein | Deddf Pysgodfeydd Eogiaid a Dŵr Croyw 1975 | 1 | £220 | £127.30 |
| **20-Rhag-23** | Mohammad Zeinali Koohoor | Gwialen a lein | Deddf Pysgodfeydd Eogiaid a Dŵr Croyw 1975 | 1 | £220 | £127.30 |
| **20-Rhag-23** | Behoad Hamzhloo | Pysgodfeydd | Deddf Pysgodfeydd Eogiaid a Dŵr Croyw 1975 | 3 | £440 | £127.30 |

# Ansawdd dŵr

## Cwmnïau

| Dyddiad y canlyniad | Cwmni | Math o drosedd | Prif gyhuddiad | Cyhuddiadau | Dirwyon | Costau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **03-Mai-23** | Taylor Wimpey UK Limited | Ansawdd dŵr | Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2016 | 1 | £480,000 | £8,591.40 |
| **19-Mehefin-23** | England Environmental (Northern) Limited | Ansawdd dŵr | Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2016 | 1 | £6,300 | £2,100 |

## Unigolion

| Dyddiad y canlyniad | Enw | Math o drosedd | Prif gyhuddiad | Cyhuddiadau | Dirwyon | Costau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **26-Mai-23** | Carl Bryan Platel | Adnoddau dŵr | Deddf Adnoddau Dŵr 1991 | 4 | £400 | £4,500 |